YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] MEDI, 1900. [RHIF 153.

"GARTREF GYDA DUW."

GAN Y PARCH. E. CEREDIG JONES, M.A.

(*Parhad o'r Rhifyn diweddaf.*)

II.

DYG yr ymresymiad hyn ni at yr ail bwynt y dymunwn sylwi arno, sef, "Y budd a ddeillia oddiwrth addoliad crefyddol." Gan nad beth fyddo ein golygiadau crefyddol, mae genym serch neillduol tuag at ein *tŷ gweddi ein hunain*, am fod yr addoliad ynddo yn unol â'n hargyhoeddiadau dyfnaf a mwyaf difrifol. Cyflwynir y tŷ hwn heddyw at wasanaeth yr unig wir a'r bywiol Dduw, yr Hwn wnai yr Iesu Ei addoli ar fryniau Galilea, ac yn hwyr y dydd ar Fynydd yr Olewydd. Felly heddyw, ar ddydd agoriad y tŷ hwn, dywedaf wrthych chwi, fy nghyd-gredinwyr yn "y Duw Byw, yr Hwn a wnaeth nef a daear, a'r môr, a'r holl bethau sydd ynddynt," "Deuwch, addolwn, ac ymgrymwn, gostyngwn ar ein gliniau ger bron yr Arglwydd ein Gwneuthurwr. Canys Efe yw ein Duw ni, a ninau ydym bobl ei borfa, a defaid Ei law." Deuwch, addolwn yr un Duw a Thad oll, yr Hwn sydd goruwch oll, a thrwy oll, ac ynom oll. Deuwch :—

"Addolwn yr unig wir Dduw,
Tad pob hanfodoldeb yw Ef:
Drwy bob trag'wyddoldeb yn byw,
Ar orsedd cyfiawnder y nef.

Ië, deuwch i *addoli;* ac nid yn unig i siarad am Dduw a'i briodoleddau. Nid oes genyf fi fawr o gydymdeimlad â'r rhai hyny a ymborthant yn barhaus ar ysgall sychion a phigog beirniadaeth a dadleuaeth.

1. Bydd yn eglur i chwi ar unwaith fod addoliad crefyddol o'r budd mwyaf, oherwydd fod Duw wedi creu dyn yn fôd addolgar. I ran helaeth iawn, y gyneddf addoliadol sydd yn gwahaniaethu dyn oddiwrth anifeiliaid y maes, ac yn ei gadw rhag ymdebygu iddynt. Gan eich bod chwi a minau yn fodau addolgar wrth natur, y mae yn amlwg na allwn esgeuluso addoliad heb wneyd cam mawr â'n heneidiau. Plant Duw ydym, a thrwy gyfrwng addoliad y gallwn oreu ddal cymundeb âg Ef, a chael ein hysbrydoli â meddyliau a theimladau sanctaidd.

Yr ydych yn gwybod ei bod bob amser yn fantais fawr i blant i ymgymdeithasu llawer â'u rhieni doeth a chariadlawn. Drwy ddad-orchuddio eu meddyliau o flaen y rhai a'u carant mor ddidwyll, a thrwy ad-dalu eu serch, cyfoethogant eu natur, a thyfant i fyny yn weddus ac ufudd. Yn yr un modd pan addolwn yr Arglwydd ein Gwneuthurwr, dyrchefir ein holl bwerau. Rhoddwn ein serch ar bethau sydd oddi-uchod—ar wybodaeth, ar ddyledswydd, ac ar wneuthur daioni fel ein Hathraw Mawr o Nazareth; ac nid oes gan yr hyn sydd ddrwg yr un swyn i ni. Wrth addoli, sylweddolwn fod ein Tad Nefol gyda ni bob amser, ac ni allwn gael ar ein calon i wneyd dim yn groes i'w ewyllys.

Mae genym brawf, pe prawf fyddai eisieu, o'r budd a ddeillia oddi-wrth addoliad crefyddol, yn y ffaith fod pobl oreu y byd—y blaenaf mewn addysg, yn gystal ag arweinwyr mewn pob achos da, i'w gweled yn mhlith y rhai ydynt yn cymeryd gofal i beidio esgeuluso addoliad crefyddol. Dichon y ceir eithriadau i'r rheol hon yma ac acw, er y mae yn ffaith anwadadwy fod gan ffyddlondeb i grefydd allu rhyfeddol i gadw pobl yn llwybr dyledswydd, ac i hyfforddi eu hanian yn y y gelfyddyd o fyw yn sanctaidd. Mae gan grefydd fwy o ddylanwad yn y cyfeiriad hwn nag un sefydliad arall.

Pan ydym gartref gyda Duw yn Ei dŷ, anadlwn awyrgylch crefydd, ac y mae hyn yn fater o bwys mawr i ni; oblegid felly yn unig y gall ein heneidiau fyw y bywyd gwell. Er mwyn unrhyw waith da, rhaid i ni fod dan ddylanwadau neillduol. Ni all neb fod yn arlunydd, os na fydd yn wastad yn ymarfer â'i gelfyddyd, ac yn byw yn mhlith gwrthrychau a golygfeydd hardd. Ni all neb fod yn gerddor da, os na adnewydda o ddydd i ddydd ei gydnabyddiaeth â'r offeryn a chwareua, neu os na wrteithia ei lais. Ni all neb fod yn wleidyddwr, os na chymer ddyddordeb arbenig mewn pynciau gwleid-yddol, ac os nad ymgynghora âg arweinwyr y bobl. Felly yn gywir ni allwn fod yn wir grefyddol, yn ystyr lawnaf a helaethaf y gair, os na wnawn ymhyfrydu mewn ymgynull i addoli Duw. Y gwŷr a'r gwragedd a ymbaratoant ar gyfer cyflawni y dyledswyddau mwyaf pwysig, ac a gynorthwyant i gynal anrhydedd ac urddas ein gwlad, yw y rhai a ddygant fawr sêl dros achos Duw, ac a ddywedant wrth eu cyd-ddynion: "Deuwch, addolwn ac ymgrymwn, gostyngwn ar ein gliniau ger bron yr Arglwydd ein Gwneuthurwr." Aelodau mwyaf defnyddiol cymdeithas yw y rhai hyny a gadwant yn agosaf at achos crefydd. Os oes neb yn meddwl y gall fyw heb grefydd, tebyg ei fod yn byw ar yr etifeddiaeth o allu moesol ag mae ei hynafiaid duwiol

wedi drosglwyddo iddo. Os oes rhai yn gallu cadw eu hunain yn ddifrycheulyd oddiwrth demtasiynau y byd *heb* grefydd, gwnant hyny oherwydd fod eu rhieni, y rhai ydynt yn awr yn y nefoedd, yn bobl dduwiol, a'u bod wedi eu dylanwadu yn y ffordd iawn. Ond nis gall corff y da barhau yn hir, os gwerir ef yn y wedd yna, pa un ai moesol ai materol fyddo; ac yr ydym oll wedi gweled engreifftiau o deuluoedd yn dirywio ac yn myned i ddim pan droent eu cefnau ar eu crefydd. Pan drodd y Mab Afradlon ei gefn ar grefydd tŷ ei dad, aeth at y moch a'r cibau. Yr ydym yn rhy fynych yn gweled y ddameg hon yn cael ei chario allan yn ein dyddiau ni.

Pan fo teuluoedd yn rhoddi i fyny i addoli Duw, ac yn ymgyflwyno yn hollol i ofalon daearol, iselhant eu safle mewn cymdeithas; mae gan eu plant lai o siawns i orchfygu anhawsderau a themtasiynau bywyd, ac mae eu hoerfelgarwch yn golled fawr i'r ardal lle maent yn trigianu. Felly apeliaf yn ddifrifol atoch chwi, benau teuluoedd atoch chwi, dadau a mamau a ddymunwch ddaioni yr anwyliaid ag mae Duw wedi eu rhoddi i'ch gofal, ar i chwi wneyd eich goreu drwy esiampl a gorchymyn i gadw eich plant o dan ddylanwadau crefyddol. O wythnos i wythnos, fel y daw dydd gorphwys oddiamgylch, dywedwch wrthynt, "Deuwch, addolwn, ymgrymwn, ymostyngwn ar ein gliniau ger bron yr Arglwydd ein Gwneuthurwr."

2. Gwelir budd addoliad crefyddol hefyd yn yr anogaeth a rydd i'r ieuainc i wrteithio eu cyneddfau goreu. Mae pawb wedi eu cynysgaeddu â rhyw ddoniau neu gilydd, ac mae y rhai hyn braidd i gyd mewn perygl o gael eu camarfer. Mae yn un o amcanion addoliad crefyddol roddi iawn gyfeiriad i bob dawn, fel y byddo iddi achosi y dedwyddwch a'r boddhad mwyaf i'r rhai a'i meddianant. Gan ei bod yn un o ddeddfau Duw y bydd ein galluoedd yn dirywio os na wnawn ddefnydd priodol ohonynt, mae yn amlwg ein bod yn gwneyd cam mawr â ni ein hunain os esgeuluswn grefydd, yr hon a'n galluoga i wrteithio ein talentau.

Yr ydym oll wedi gweled pobl yn rhoddi eu holl fryd ar lwyddiant bydol. Rywfodd gobeithient y caent lawer blwyddyn o hamdden yn hwyrddydd bywyd i fwynhau ffrwyth eu llafur. Ystyrient hi yn wastraff ar amser i lanw eu meddyliau â geiriau doethineb, neu i ymuno â'u cyd ddynion i addoli y Bôd Mawr i'r Hwn yr oeddynt yn ddyledus am yr oll a feddent. Drwy gadw yn mhell yn y wedd hon oddiwrth y dylanwadau goreu, newynent eu heneidiau, ac yr oeddynt yn druenus o dlawd.

Mae addoliad crefyddol yn porthi yr enaid, tra y pâr oerfelgarwch i elfenau mwyaf aruchel ein natur i wywo o'n mewn o ddiffyg lluniaeth. Yn anwahanadwy gysylltiedig âg addoliad crefyddol mae diwylliant addfetaf yr oesau. Meddyliwch am gerddoriaeth fwyaf ysblenydd y byd, a chewch fod yr hyn sydd fwyaf swynol a mawreddog yn ngweithiau prif gyfansoddwyr yr oesau wedi cael ei ysbrydoli gan feddyliddrychau crefyddol. Dyna yw hanes cyfansoddiadau godidocaf Handel, Weber Mozart, Haydn, a Mendelsshon, yn gystal ag *oratorios* ardderchog cerddorion ereill o gyffelyb enwogrwydd. Yr un modd gyda'r hyn mae beirdd, proffwydi, a dysgawdwyr mawr ereill wedi ei

ysgrifenu—mae'r oll yn sylfaenedig ar grefydd—myfyrdodau dyn ar Dduw, dyledswydd, a'r bywyd mawr tragywyddol. Ac yn mhellach, gellir dyweyd fod darganfyddiadau Gwyddor i'w priodoli i radd helaeth i ysbryd gwir grefydd, yr hwn a orfoda gwyddonwyr yr oes i chwilio am wirionedd b'le bynag mae i'w gael, a'i ganlyn b'le bynag yr arweinia hwynt.

Felly gwelir fod addoliad crefyddol yn hyrwyddo diwylliant yr enaid. Rhydd gyfeiriad iawn i holl nerthoedd ein natur, fel na wastreffir yr un ohonynt. Felly cynghoraf chwi, fechgyn a merched ieuainc yr ardal hon, i gyflawni eich dyledswyddau crefyddol gyda'r gofal manylaf. Ystyriwch addoliad crefyddol fel gwir anadl yr enaid a'ch ceidw yn fyw. Na oddefwch i ffasiwn wâg na geiriau denol cyfeillion gau i'ch gwneyd i esgeuluso eich dyledswydd tuag at eich Duw a'ch Tad: ac yna bydd eich gyrfa ddaearol fel ffordd hyfryd yn arwain i dragywyddol hedd. "Cofiwch yn awr eich Creawdwr yn nyddiau eich ieuenctid, cyn dyfod y dyddiau blin, a nesâu o'r blynyddoedd yn y rhai y dywedwch, Nid oes i ni ddim dyddanwch ynddynt." Os y cofiwch eich Creawdwr yn awr, pan mae eich galluoedd ar eu goreu, fe wna Ef eich cofio chwi yn anterth eich nerth ac yn eich hen ddyddiau, a chorona eich bywyd â hedd a hyfrydwch. "Canys beth bynag a hauo dyn, hyny hefyd a fed efe." Wrthych chwi, y rhai ydych yn mlagur eich dyddiau, ac yn gweled bywyd fel Paradwys o'ch blaen—chwi y rhai sydd â'u rhagolygon mor ddysglaer ac addawol, dywedwn bob Sabbath, pe trigwn yn eich plith, "O, deuwch, addolwn ac ymgrymwn, gostyngwn ar ein gliniau ger bron yr Arglwydd ein Gwneuthurwr." Gofelwch na welir chwi byth ar du y gwatwarwr a'r gwawdiwr, ond ar du Duw a dyledswydd. Yn y tŷ hwn byddwch gartref gyda Duw eich tadau. Deuwch yma mor fynych ag y medroch i gyfarfod â'ch Tad Nefol, i erfyn arno i'ch bendithio â nerth a doethineb, ac i'ch arwain ar hyd llwybrau cyfiawnder.

3. Mae addoliad crefyddol fel hyn yn foddion i'n cadw rhag gwneyd cam â'n cyneddfau goreu, drwy ein dylanwadu i wneyd defnydd priodol ohonynt; ac felly mae yn gynorthwy mawr yn y gwaith o ffurfio cymeriad. Mae yr eglwys sydd yn deall ei chenadwri yn iawn yn ysgol lle y dysgir elfenau bywyd rhinweddol. Dyna ydyw un o brif amcanion yr eglwys yn y lle hwn. Addolwn Dduw yma, am na allwn lai na gwneyd hyny, os ydym yn ein iawn bwyll; canys Efe yw ein Tad a'n cyfaill goreu. Ond nid ydym yn ymfoddloni ar hyn, er mor dda ydyw i ni nesâu at Dduw. Mae yn un o nodweddau mwyaf pwysig y grefydd a broffeswn ein bod yn credu fod yn rhaid i ni ufuddhau i Dduw yn ein holl orchwylion cyn y gallwn ei addoli Ef yn iawn. Rhaid i ni ymdrechu bod yr hyn y mae ein cydwybodau yn dyweyd wrthym y dylem fod. Am hyny dywedaf mai amcan mawr yr eglwys yn y lle hwn fydd gwneyd pawb ag sydd yn perthyn iddi yn gariadlawn, tangnefeddus, maddeugar, a phur o galon, fel y Blaenor Mawr, Iesu o Nazareth, yr Hwn a broffeswn ganlyn drwy glod ac anghlod. Saif yr eglwys hon o blaid y gwir, yr holl wir, a dim ond y gwir, mor bell ag y gall meddwl meidrol dyn blymio dirgelion yr Anfeidrol.

Rhydd anogaeth i bob peth a duedda i wneyd y rhai a ddaw o dan ei dylanwad yn ddinasyddion cyfiawn ac anrhydeddus o'r byd hwn. Dechreua gyda iachawdwriaeth yn y byd hwn fel rhagbarotoad ar gyfer iachawdwriaeth dragywyddol. Dywed wrth eich plant, Ymdrechwch i fod yn berffaith. Mae Duw yn dymuno hyn, a dim llai na hyn. Mae yn dysgwyl arnoch i fod yn oleuni y byd. Aeth ein hesiampl, Iesu o Nazareth, drwy y byd heb lychwino Ei gymeriad. Yr ydych chwithau hefyd yn feibion a merched y Goruchaf Dduw, a gwahoddir chwi i rodio yn yr un llwybr a'r Iesu. Dyma y genadwri a draddodir i chwi yn y lle hwn.

Yr ydwyf fi wedi cael prawf ugeiniau lawer o weithiau o'm mebyd hyd yn bresenol fod y Ffydd a garwn yn dueddol neillduol, pan broffesir hi mewn modd cyson, i ddadblygu y cymeriad moesol goreu, i wrteithio y talentau, i fwyneiddio ein hymddygiadau, ac i ddyfnhau ein parch tuag at bethau sanctaidd. Amcan ein haddoliad crefyddol yw, nid yn unig i dalu offrwm o fawl a gweddi, ond i'n gwneyd yn gyfoethog mewn gweithredoedd da, pur o galon, cariadlawn mewn meddwl a theimlad, a chyfiawn ger bron Duw a dyn. Nis gall y fath addoliad lai na bod yn allu Duw er iachawdwriaeth i'r rhai a gymerant ran ynddo. Felly galwaf eich sylw yn arbenig ar y dydd pwysig hwn at genadwri yr eglwys hon fel ysgol lle yr addysgir yr ieuainc i fyw yn dduwiol. Ni ellwch wneyd pobl yn rhinweddol a chymwynasgar i'w gilydd drwy offerynoliaeth cyfreithiau a basir yn y Senedd, na chwaith drwy gyfrwng addysg fydol. Rhaid i'r rhinweddau goreu darddu bob amser o ffynonell ffydd yn y galon, ffydd yn Nuw fel Llywodraethwr moesol y bydysawd, a ffydd ynom ein hunain fel ei blant, y rhai a greodd ar Ei lun a'i ddelw Ei Hun, i'w wasanaethu a'i garu yn oes oesoedd.

4. Awgryma hyn i ni y syniad fod tŷ Dduw, fel lle o addoliad a chartref crefyddol, yn ysgol i addysgu yr addolwyr elfenau cymeriad da. Mae yn wir y gosodir sylfeini cymeriad yn gyffredin ar aelwydydd rhieni, lle yr addysgir plant mewn modd caruaidd i ymgadw rhag pob rhith drygioni, ac i ganlyn yr hyn sydd sanctaidd a chyfiawn. Mae y cymeriadau harddaf a fu ar y ddaear erioed wedi bod yn alluog i olrhain eu dewrder moesol a'u hymroddiad i ddeddf dyledswydd i'r addysg foreuol roddid iddynt gan y rhai a'u carent yn fwy anwyl na'u bywyd eu hun. Ond fel mae'r ieuainc yn tyfu i fyny yn nghartref eu mebyd, mae yn angenrheidiol iddynt gael cylch helaethach er diwyllio eu cyneddfau meddyliol, moesol, ac ysbrydol. Ni phetrusaf ddyweyd mai y cylch goreu a allant fyth gael at y cyfryw amcan yw Eglwys Dduw. Tra y rhodiant gyda Duw yn yr ail gartref hwn, arweinir hwynt ar hyd yr iawn ffordd gan Ei law anweledig, braidd heb yn wybod iddynt. Tra bo chwi, fy nghyfeillion ieuainc, gartref gyda'ch Tad Nefol yn y lle hwn, bydd i chwi wasanaethu eich prentisiaeth ar gyfer dyledswyddau a gofalon bywyd. Mae yn ffaith y dylem roddi y pwys mwyaf arni, fod prif arwyr ein gwlad—enwogion fel William Ewart Gladstone, John Ruskin, a James Martineau—wedi derbyn eu haddysg ar gyfer eu gwaith gododig yn eu hieuenctid yn nhŷ Dduw. Gan hyny,

dywedaf wrthych chwi, fechgyn a merched ieuainc, ac wrthych chwi, blant, Os ydych am wneyd y goreu o'ch bywyd, ac am esgyn ar risiau dyrchafiad, cymerwch y dyddordeb mwyaf yn yr eglwys y perthynwch iddi. Yn awr, ymgymerwch â rhyw waith da a defnyddiol, a byddwch yn alluog i wneyd eich bywyd yn fendith i'ch cyd-ddynion, ac yn llawn o ddedwyddwch i chwi eich hunain. "Deuwch" mor fynych ag y medroch, "addolwch ac ymgrymwch; gostyngwch ar eich gliniau ger bron yr Arglwydd eich Gwneuthurwr."

Oddiwrth yr hyn a draethais, gwelwch pa mor hyfryd yw bod gartref gyda Duw, a pha mor fuddiol yw y gwaith o'i addoli. Yn awr, gan fod genych gartref clyd i "foli'r Duw sydd oll yn gariad," "Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist," "Un peth a ddeisyfaf, hyny a geisiaf," sef caffael ohonoch chwi oll y gras o fod yn ffyddlawn hyd angeu i'r achos da yma. Yma bydded i lawer o eneidiau ieuainc i gyflwyno eu nerth corfforol ac ysbrydol at wasanaeth pob peth sydd dda, anrhydeddus, a gwir. Yma boed i'r blinderog a'r trwmlwythog gael esmwythâd. Yma bydded i'r rhai sydd yn galaru ar ol eu hanwyliaid deimlo awelon y nefoedd, a chael sicrwydd nad yw angeu ond ymadawiad yr enaid anfarwol o gaethiwed y corff i ryddid y cartref gwell. Yma bydded i'r rhai sydd wedi crwydro oddiar ffordd y bywyd i gael eu harwain yn ol at Dduw a dyledswydd. Yma bydded i lawer gael eu cysuro gan y syniad fod Duw yn Dad cariadlawn iddynt, ac y bydd yn Warcheidwad a Chyfaill cywir iddynt am dragywyddoldeb. Yma bydded i ysbryd yr Iesu lywodraethu, a llanw pob calon â'r cariad sydd yn hirymaros ac yn gymwynasgar. Yma bydded i bawb ddyfal barhau yn ffyrdd duwioldeb, hyd nes geilw yr Arglwydd ein Gwneuthurwr hwynt oddiwrth eu gwaith at eu gwobrwy, i fod gartref gydag Ef yn dragywydd. Amen.

DU A GWYN.

WRTH draed yr Alpau yn yr Haf, dwy gornant fechan sy';
A gelwir un y Gornant Wen, a'r llall y Gornant Ddu.

O fôr o ia daw'r Gornant Wen, a'r llif fel llaeth o wyn;
Ac nid yw'n cychwyn ar ei thaith un amser, ond fel hyn.

Fel arall tardda'r Gornant Ddu, a duach, duach ä;
Pan rewo'r gauaf ffrydiau hon, du ydyw lliw yr iâ.

Y Gornant Wen i'r Gornant Ddu a lifa'n hardd ei llun;
Ond Afon Ddu, o hyn i maes, yw enw'r ddwy yn un.

Trallod beunyddiol dan y nef yw cael y gwir fel hyn—
Mae'n hawddach troi y gwyn yn ddu na throi y du yn wyn.

ELFED.

PAPYRAU AP CYNON.

WEDI EU HARCHWILIO A'U DETHOL GAN
HIRFAEN RHYS.

XII.

HELYNTUS a dyrys ddigon a fu gyrfa ein hen frawd, yn fydol ac yn feddyliol. Yn awr, cawn ef yn eistedd yn hamddenol-fyfyrgar dan lwyn helyg cysgodol, a'r greadigaeth oddiamgylch iddo yn ymdröelli yn mlaen yn hapus yn nghyfeiliant tònau'r gornant Cynon, a lifai heibio'i draed cyn sionced a'i feddyliau ysgafn a dedwydd yntau. Hoffai, ïe, carai'n angerddol dawelwch dystaw-ddwfn ei hen gwm genedigol. Yn yr hen ddyffryn anwyl, teimlai ei hun yn blentyn unwaith eto; ac i'w olwg, gwisgai pob bryncyn a llecyn yr un dillad syml ag a wisgent yn nyddiau ei blentyndod. Nid oedd dirgelwch yn preswylio calon na blod'yn, na milyn, na bryn, na chwmwl—y dirgelwch hwnw a orlethai ei galon a'i ymenydd yn ei ddyddiau llawndwf yn nhwrw a berw'r dinasoedd—na, swynai'r afonig ei blentyndod yn ol iddo eto, a gwelai y friallen ar y làn, a'r brithyll yn y dwfr clir islaw, gyda llygad a chalon syml plentyn bach. Anaml yn ei ddyddiau addfetaf y dygwyddai yr amserau hyn, eithr "oriau euraidd" oeddynt yn hanes ei bererindod ef. Cyn y derbynia natur neb i'w chôl, rhaid iddo fod yn blentyn eto; y mae hyn mor wir am y bardd a'r athronydd ag ydyw am etifedd Teyrnas Nefoedd. "Gadewch i blant bychain ddyfod ataf Fi"—dyna lais natur drwy'r oesau; dyna lais athroniaeth drwy'r canrifoedd; dyna lais gwir grefydd drwy'r blynyddau, fel ag y mae yn llais dídaw Duw drwy enau Iesu o Nazareth.

Yn ei oriau o blentyndod llawndwf ar làn y gornant Cynon, ynte, y gwnaed dyn o Ap Cynon, cyn belled ag y caniatawyd hyny yn ystod ei hoedl fèr. Hyd heddyw y mae'r gareg lwyd yn aros ar làn yr afon, a'r brwyn hir-leision yn oleddu trosti, a'r gornant yn cadw ei thraed yn llyfn, ac ysgubo ymaith y *lichens* llwydion a fynant yn fythol geisio treiddio i mewn i'w chalon gyfrin; y mae'r hen helygen yn aros eto, ac aml i aelod iddi wedi diflanu dan lyfnder ei gyllell fechan; y mae'r llwybr tua'r fan yn haner-gauedig gan gyfoeth amryw wanwynau newydd; y mae llygaid aur y *potentil* bychan yn gwibio i bob cyfeiriad o gylch—eithr yn ofer; y mae bysedd cochion y cwn yn ymgrymu yn hwyrdrwm ger llaw—da ydynt, medd y meddygwr, i wella briwiau'r galon; ond tyfant yn ofer i'r galon a hiraetha am yr hen gyfaill anwyl a fyfyriodd yma gynt.

Hwn, yn deiau, oedd canolbwynt ei gread ef; y fan hon oedd ei gartref; hon oedd ei nefoedd; ac nid oes y fath beth a "byd yr ysbrydoedd" mewn bod os nad yw ysbryd Ap Cynon, eto, ar ei awyrol hynt, yn talu ambell ymweliad â'r sedd a garai gymaint pan

yma yn y cnawd. Ni fedd neb ond un gwir gartref; "Ac nid oes le fel cartref," pa le bynag yr awn. Mangre'r eneidiau digartref yw uffern; ac i'r enaid digartref y mae pob man yn uffern. Gwae y meddwl nad oes ganddo le i roddi ei ben i lawr: boed hwnw Feibl ei fam; boed gyfundrefn Darwin; boed athroniaeth Kant neu Hegel; boed yr Atheistiaeth fwyaf diobaith, o bydd y meddwl yn ei deimlo yn gartref clyd, yn dŷ cadarn iddo, wedi ei adeiladu ar ryw graig.

Digartref yn bur aml a fu enaid Ap Cynon; drylliwyd pabell frau Calfiniaeth ei blentyndod yn foreu yn ei hanes; teithiodd wlad a gor-wlad yn dlawd, ïe,'n gardotyn ysbrydol, gan fenthyca weithiau o stôr y materolwr, bryd arall ysgafn fwydydd yr ysbrydegwr ofergoelus. Bu yn lletya gyda Spencer, yr hwn a ymddangosai mor gyfoethog, ond cafodd fod ei gwpbwrdd yn wâg: a phan ofynodd i hwnw, I ba le yr äf fel y caffwyf fara i'm henaid? atebodd hwnw iddo, Nis gwn.

Bu yn gofyn cardod gan Bradlaugh, ond mynai Bradlaugh iddo gredu nad oedd ganddo yr un cylla (ysbrydol).

I ben tŵr St. Paul fe'i temtiwyd, a gwelodd oddiyno gyfoeth teyrnasoedd daear a'u holl ogoniant hwy; ond ni fu meini gwychion prifddinas y byd yn fara i'w enaid, na holl ogoniant daear yn un dafn i dori syched angerddol ei feddwl.

Nid cyfoeth a gogoniant y byd oedd ddwfr a bara i'w ysbryd ef; nid yn eu canol hwynt yr oedd ei gartref; ehedai ei feddwl beunydd yn syth at hanfod pethau. I'w lygad ef, ni feddai'r sofren aur yr un gwerth fel y cyfryw; ni roddai ffeuen am yr adamant gwerthfawrocaf am ei fod yn em; eithr prisiai y naill a'r llall fel teithydd yn medru traethu iddo ryw ystori fechan am yr hyn a welodd ar ei daith o'r cynfyd tywyll i lawr hyd yr oes dywyllach hon.

Ac yr un modd ag yr edrychai i fewn i hanfodion natur y sylwai hefyd ar hanfodion calon dyn. Syllai drwy y carpiau gwlenyn, a'r wisg o gnawd, cyn belled ag y medrai, ar enaid dyn yn ei noethni a'i ysblander (neu ei hagrwch) cynhenid ei hun. Difianai'r llen o foesgarwch, a dysg, a diwylliant, o dan ei lygad fel y tarth dan haul y boreu, ac edrychai ar y galon onest (neu anonest) odditanodd. Gwelai nad mewn gwisg, na gwedd, na dysg, na dawn y gellid adnabod y gwir ddyn; eithr credai gyda Pope hyn o beth, mai "Dyn gonest yw gwaith ardderchocaf Duw"—

"An honest man's the noblest work of God."

Yn wir, y mae yn flys genym yma roddi dyfyniad o un o'i Bapyrau; 'does yr un testyn uwch ei ben, ond y mae'n amlwg mai yr ail orchymyn oedd ganddo mewn golwg:—

"Na ladrata! Oni chynwysir swm a sylwedd moesoldeb yn yr un gorchymyn hwn? Bydd onest—dyna eiriau ereill am yr un peth; onid dyma'r unig reol sydd eisieu ei chadw i arwain bywyd pur a chyfiawn? Onid dros onestrwydd y dyoddefodd Llu'r Merthyri; y poenydiwyd Galileo; yr erlidiwyd gwyddonwyr yr oesau; yr erlidir

miloedd y dyddiau hyn ; y gwawdir rhai o'n sectau goreu eu daliadau ; y poerwyd ar, ac y croeshoeliwyd, y gonestaf a welodd daear erioed ? Rhyfeddais yn aml at y cyfnewidiad a gymerai le pe bai pob dyn yn berffaith onest. Dacw un a eilw ei hun, ac a eilw *rhai* ereill, yn athronydd ; gofynaf iddo, Ai chwilio yn onest am wirionedd yr wyt ? Ai ynte Pharisead ydwyt, yn mynychu conglau'r heolydd er mwyn cael dy weled gan ddynion ?

"Dacw fardd crychwallt teneu, a gwallgofrwydd mwyn yn dawnsio yn ei lygaid tryloewon, a phob ystum o'i eiddo yn gynghanedd lusg o gyswllt ewinog ; y mae yn flys genyf ail-adrodd iddo, 'Na ladrata,' ond ofnwyf ei bod yn rhy ddiweddar.

"Dacw hwlcyn (maddeuer y maswedd) o offeiriad llyfndew, a gruddiau (fel eiddo Olwen !) o liw'r claret cochaf ; a'i gnawd yn ymdòni drosto fel tònau tawel y Môr Coch ; ei lygaid dwfn-ddysg (?) yn ymfoddi obry mewn brasder ; a mêr ei dalentau yn disgyn yn ddafnau tryloewon dros ei arlais anferth ; ei yspardynau fel dwy fellten wenllachar wedi rhewi ar ochrau ei farch porthianus ; ei fodrwyau yn dysgleirio ar ei fys megys modrwyau Sadwrn drwy'r *Herschell telescope ;* ofynwyd i'r offeiriedyn hwn erioed, A wyt ti ddilynydd *gonest* i'r Saer tlawd o Nazareth fu'n marchog i Jerusalem gynt ar ebol llwdn asyn ? Nid wyf yn drwgdybio na thi na'th farch mewn modd yn y byd ; gwn fod crefydd yn dygymod yn dda âg ambell un ; ond—ond, ai ar Fara a Dwfr y Bywyd yr wyt ti a'th farch wedi ymdewychu ? Anamled yw y rhai a geisiant grefydd er ei mwyn ei hun, yn gwbl onest, eithr nid fel y'u gwelo dynion. Anamled y pregethwr nad 'diwedd ei gân yw y geiniog.' Anamled y gwyddonwr a wnai ei waith yn ei gyfyng gell, nid er 'cariad nac aur,' eithr fel delo yn nes at wirionedd, ac y gedy y byd yn well ar ei ol. Anamled y bardd a geny gân yn syth o'r *frest* mor naturiol a'r llinos yn mrig yr onen. Onid rhyw wallgofrwydd a fyn gerfio enw gyda phin o ddur a phlwm toddedig ar greigiau'r oesau ydyw *motive-power* y rhan amlaf o'r rhai a elwir yn feib athrylith—ac nid pwrpas gonest i wella'u hunain a'r byd drwy ffyrdd gonest ? Am y bardd mwyaf a welodd y wlad hon, ac efallai yr holl fyd, erioed, y mae yn bur debyg na ddaeth i'w feddwl ef y fath beth ag ysgrifenu ei enw ar femrwn anniflanedig yr oesau. Pa beth bynag a ellir ddyweyd am Shakespeare, nis gall neb ddwyn i'w erbyn y cyhuddiad o'i fod ef yn anonest. Daliodd ei ddrych yn onest o flaen y byd, modd y gallai y byd weled ei hun ynddo heb ŵyr na choll : ac wele ef yn rhinwedd ei swydd (*ex-officio*) yn anfarwol—a hyny am iddo ddyweyd y gwir yn onest.

"Y gwir a saif. Y da a'r gonest sydd i fyw. Y mae pob peth nad yw mewn cydgord âg hanfod pethau, fel nodyn hagr mewn anthem, yn marw yn y pellder. Goleuni'r seren sydd yn aros wedi cyrhaedd myrddiwn o filldiroedd y pellder"—ac yn y blaen. Clywn y darllenydd yn gwaeddi, Digon, ac atebwn ninau, Boddlon.

(Tw barhau.)

H. R.

"YN OL AT IESU."

(*Parhad o'r Rhifyn diweddaf.*)

OS ydym, ynte, i fyned "yn ol at Iesu," ni gawn reol o bwys ac o werth anghymharol mewn crefydd. Yn nghanol holl ddadleuon yr eglwysi, yn nghanol amheuaeth ac anhawsderau Duwinyddiaeth, yn nghanol rhyfel yr Iawnffyddwyr a'r amheuwyr, yn nghanol ymdrechion y meddwl dynol i gael allan ac i sylweddoli y berthynas mae Duw yn ddal i ddynion: yn nghanol yr ymholiadau dwys-ystyriol a oes yna unrhyw gariad Dwyfol yn gofalu am danom ac yn ein harwain ar ein taith? a oes yna glust nefol yn clywed ein gweddi ddystaw a dirgel? y mae yna yn dyfod yr atebiad yn glir a difloesgni, o gaeau a mynyddau Galilea, o lànau y llyn a'r afon ac o'r prif-ffyrdd o amgylch Jerusalem, atebiad yr Iesu, yr Hwn yr edrychir arno fel Athraw a Meistr gan y byd Cristionogol: "Ydyw, y mae Duw yn Dad i chwi, O ddyn, dynes, a phlentyn. Efe yw eich Tad Nefol o anfeidrol ddoethineb a thiriondeb. Ni allwch anadlu un weddi heb iddi gyrhaedd Ei galon dadol Ef. Y mae Ei drugaredd yn eich amgylchynu yn ol a blaen—yn eich gofid, eich trallod, a'ch poen. Nid ydych un amser yn llawen heb Ei fod Ef yn cydorfoleddu â chwi. Y mae hyd yn nod wallt eich penau yn gyfrifedig ganddo. Mae Ei ofal yn ymestyn hyd at adar y tô, ac yr ydych chwi o fwy gwerth na llawer ohonynt hwy. Dillada Efe lysieuyn y maes; pa faint mwy, gan hyny, y gwna Efe eich dilladu chwi, O chwi o ychydig ffydd? Nac ofnwch, ddeadell fechan, canys ewyllys eich Tad yw rhoddi i chwi y Deyrnas.

Nid ydym yn gofyn yn awr a ydyw hyn yn dduwinyddiaeth iachus, neu yn wir grefydd ai peidio. Nodwn yn unig mai dyma yw yr ateb rydd Iesu i'n hymholiadau, ein hamheuon, a'n hofnau os ydym i fyned yn ol ato Ef mewn gwirionedd.

Mae gyda ni un cwestiwn i'w ofyn eto cyn dyfod at gyflawn feddwl yr Iesu yn nghylch ein perthynas â'n Tad Nefol. Beth yw telerau derbyniad gan y Tad hwn? Mae'n wir Ei fod Ef yn ein caru â'r tynerwch mwyaf; ond mae'n bosibl hyd yn nod i'r tynerwch hwn geryddu. A gwyddom fod yr Iesu yn dysgu fod y Tad tyneraf yma yn ceryddu ac yn cosbi. Mae y gofyniad yn codi, ynte, Beth yw telerau Ei ffafr neu Ei wg? Wrth ofyn hyn, yr ydym yn troi oddiwrth ddysgeidiaeth Crist am Dduw at Ei ddysgeidiaeth foesol. Ai credu mewn rhes o gredoau neu erthyglau ffydd yw telerau derbyniad gan Dduw, yn ol yr Iesu? Ond i ni edrych yn fanwl trwy y tair Efengyl gyntaf, canfyddwn ar unwaith mai nid hyn yw y ffaith. Nid oes yna ond un frawddeg yn yr oll o'r rhai yma ag sydd yn rhoddi y sail leiaf i'r fath syniad, a hono yw, "Y neb a gredo ac a fedyddir a fydd cadwedig, eithr y neb ni chredo a gondemnir" (Marc xvi. 16). Ond beth yw y ffeithiau yn nghylch hon? Dywed Cyfieithwyr y Testament Diwygiedig fod y ddwy henaf o'r llawysgrifau Groeg, ac awdurdodau ereill, yn gadael allan adnodau 9 i'r diwedd; tra y mae

yr Efengyl yn diweddu yn hollol wahanol i hyn mewn awdurdodau ereill eto. Beth yw'r casgliad, ynte? Dyma yw, Mai ychwanegiad diweddar at yr Efengyl yw adnodau 8-20, ac na ellir cymeryd yr adnod hon fel rhan o'r Efengyl gydag un graddau o ymddiried, ac felly gyda llai fyth fel un o ddywediadau yr Iesu. Rhaid i ni edrych i gyfeiriadau ereill, ynte, am dystiolaeth am Ei ddysgeidiaeth ar y pen hwn. Ac nid yw y dystiolaeth yma yn eisieu—mae yn amlwg ddigon trwy yr Efengylau, yn enwedig yn y Bregeth ddigyffelyb ar y Mynydd, a llawer o'r damegion. Dysga y rhai hyn yn eglur mai nid cyffes ffydd a chyflawniad o seremoniau sydd yn gwneyd dyn yn gymeradwy ger bron Duw, eithr, yn hytrach, bywyd pur a dilychwin, ysbryd addfwyn a gostyngedig, cyfiawnder, trugaredd, ac ewyllys da, ac yn olaf, edifarhad trylwyr a gwirioneddol am ei bechodau, a dychweliad i'r cyflwr hwnw pan mae ufuddhau i orchymynion Duw a'i ddeddfau yn gysur a dedwyddwch, yn fraint ac yn fendith i ddyn.

Dyma, ynte, yw addysg Iesu Grist, a phrif sylwedd yr Efengyl draddodwyd ganddo yn Galilea a Jerusalem. Duw yw ein Tad, ninau ydym Ei blant. Gallwn agoshau ato mewn gweddi heb yr un cyfrwng, a chymuno âg Ef megys ysbryd âg ysbryd. Y mae yn gofalu am danom gyda thiriondeb didrai. Gŵyr ein hangenion yn well na ni ein hunain, a gwna â ni yn llawer gwell nag y gallwn ni ofyn ganddo neu ddrychfeddwl am dano. Nid yw ein gofidiau a'n poenau ond trugareddau cuddiedig, trwy ba rai y ceisia ein dwyn ato Ei Hun. Pan edifarhawn, derbynia ni yn ol i lawn wynfydedigrwydd Ei gartref tragywyddol. Ei gyfraith i ni yw, fod i ni garu cyfiawnder; i wneyd i ereill fel y dymunem i ereill wneuthur i ninau; ac i'w garu Ef â'n holl galon, â'n holl feddwl, ac â'n holl nerth, a'n cymydog fel ni ein hunain.

Dyma yw canlyniad ein hanturiaeth. Yr ydym wedi myned "yn ol at Iesu," ac wedi ceisio cael gafael yn "meddwl Crist." Ac yr ydym yn cael un sydd yn dysgu i ni Dadoldeb Duw a brawdoldeb dyn; un sydd yn pregethu cyfraith cariad tuag at Dduw a dyn gyda'r fath allu a nerth argyhoeddiad, a chyda'r fath diriondeb ac anogaeth, fel nas gwelwyd eu tebyg yn holl hanes dynolryw. A dyma un peth sydd yn nodweddu yr Iesu yn neillduol—Ei allu anarferol i greu argyhoeddiad yn ereill: "A'r tyrfaoedd a synasant wrth Ei Athrawiaeth Ef, canys yr oedd Efe yn eu dysgu hwynt fel un âg awdurdod ganddo, ac nid fel yr ysgrifenyddion;" "A'r bobl gyffredin a wrandawent arno yn llawn." Cyfodai y gallu hwn, yr wyf yn meddwl, oddiwrth ddwy ffaith bwysig yn nysgeidiaeth yr Iesu: Yn y lle cyntaf, siaradai fel un wedi ei lwyr argyhoeddi o'r hyn oedd yn ei bregethu, fel un oedd wedi Ei lanw i fyny yn gyfangwbl â'r gwirioneddau mawrion oedd ganddo i'w pregethu. Mae hyn yn wir, nid yn unig am dano Ef, ond am bob dysgawdwr arall, sef fod didwylledd, gonestrwydd, ac argyhoeddiad dwfn yn cario argyhoeddiad yn ereill. Yr hyn oedd ganddo i'w bregethu, nid wedi ei ddysgu oddiwrth ereill yr oedd, ond yr oedd yn brofiad uniongyrchol iddo Ef Ei Hun—yn fath o weledigaeth ysbrydol iddo trwy Ei gymundeb agos a pharhaus â'i Dad

Nefol; ac felly, yr oedd Ei argyhoeddiad yn llawer mwy dwfn nag eiddo y rhai hyny ydynt yn unig yn astudio llyfrau, neu yn rhoi i fyny i ymresymiad ereill. Siaradai yr Iesu fel un âg awdurdod ganddo, yn yr ail le, am fod y gwirioneddau oedd ganddo i'w traethu i'r byd y fath ag i ddeffroi atebiad uniongyrchol yn nghalonau a chydwybodau Ei wrandawyr. Apeliai yn ddigyfrwng at y dyn ysbrydol. Y mae yna wirioneddau ag y cyfaddefir ar unwaith eu bod felly can gynted ag eu deallir; fel engraifft, gwirioneddau rhifyddeg. Maent yn dibynu ar natur pethau, ac nis gellir eu gwrthwynebu. Yn yr un modd, y mae yna wirioneddau ydynt yn apelio mor gryf at ein bywyd ysbrydol fel y canfyddwn ar unwaith eu dilysrwydd mor gynted ag eu deallir gan y gydwybod. A dyma'r gwahaniaeth mawr rhwng dysgeidiaeth yr ysgrifenyddion ag eiddo yr Iesu. Dysgent hwy bethau allanol—athrawiaethau, er, efallai, yn wir, na fyddent yn apelio at deimlad mewnol y gwrandawyr, ond yn gofyn rhyw awdurdod tu allan i'r dyn ei hunan cyn y gallent gael eu derbyn; tra yr oedd dysgeidiaeth yr Iesu ar unwaith yn gorfodi cydsyniad â hi, trwy ei bod yn cydgordio mor llwyr â ffeithiau a phrofiadau y bywyd ysbrydol.

Gadewch i ni ofyn yn awr beth yw safle y rhai hyny sydd wedi myned yn ol at yr Iesu, ac wedi sylweddoli cynwys Ei addysg. Pa fodd maent yn sefyll mewn perthynas i athrawiaethau, credoau, a seremoniau yr Eglwysi? Cânt eu hunain mewn meddiant o addysgiadau syml yr Iesu—addysgiadau ydynt yn cario gyda hwynt yr argyhoeddiad o'u gwirionedd trwy eu cydgordiad âg angenrheidiau a phrofiadau y natur ddynol. Mae eu duwinyddiaeth yn gynwysedig yn unig yn yr athrawiaeth o Dadoldeb Duw, a'u defod mewn caru Duw ac ymegnio ar ol daioni a chyfiawnder. Edrycha fel pe na byddai yn sail digonol i adeiladu Eglwys arni, ac eto dyma yw swm a sylwedd yr hyn mae yr Iesu yn gynyg i ni; ac os ydym i fyned "yn ol at Iesu," rhaid iddi fod yn swm a sylwedd ein crefydd ninau. A phan y deuwn i ystyried, oes yna, wedi'r cyfan, unrhyw angenrhaid ysbrydol na all yr athrawiaeth syml hon ein diwallu? Os yw Duw mewn gwirionedd yn Dad i ni, ydyw hi yn bosibl y gallwn fod mewn angen am ragor? Oes yna unrhyw sefyllfa yn ein bywydau pan na all yr athrawiaeth o Dadoldeb Duw, fel ei pregethwyd gan yr Iesu, fod yn bobpeth y gall ysbryd dyn i ddymuno am dano, os yn cael ei chredu yn wirioneddol? Mae'n bosibl nad yw y grefydd hon yn un hawdd i'w chyrhaedd, ond dyma oedd crefydd yr Iesu; ac mor bell ag yr ydym ni yn methu gafaelu ynddi, yr ydym yn syrthio yn fyr o fod yn ddysgyblion iddo Ef. Ymddengys i mi fod y pwys mawr sydd yn cael ei roddi ar amryw athrawiaethau lawnffyddol yn codi oddiar y ffaith fod dynion wedi ac yn methu sylweddoli yn llwyr lawn ystyr y gwirioneddau mawrion a bregethid gan yr Iesu, ac yn enwedig y gwirionedd holl-bwysig fod Duw yn Dad i ni, ac yn ein caru fel Ei blant, ac fod Ei fendith yn dibynu ar fod yna gariad tuag at gyfiawnder a thrugaredd yn ein calonau.

Gallwn sylwi cyn myned yn mhellach fod yr athrawiaethau boblogaidd, megys Duwdod Crist, y Drindod, achubiaeth trwy waed

Crist, ac anffaeledigrwydd y Beibl, yn absenol o ddysgeidiaeth yr Iesu, ac yn atebol am eu tarddiad i oesoedd diweddarach. Nid oes yna yr un frawddeg yn Ei holl addysg all roi yr un sail iddynt, neu, ai na ellir ei hesbonio yn fwy rhesymol mewn modd arall. Ond mae y ffaith yn aros eu bod yn bodoli, a rhaid cyfrif am eu tarddiad. Edrychid ar Dduw gan mwyafrif mawr y bobl, ac edrychir arno eto gan lawer, fel rhyw Fôd pellenig, yn byw rywle yn y nefoedd fry, ac yn mhell oddiwrth Ei blant; yn cael Ei nodweddu yn fwy gan gyfiawnder llym, gan greulondeb a digofaint, na chan gariad a thrugaredd, yr Hwn ni wrandawai weddi, ac ni chlywai gri ei blentyn gwael, a'r Hwn oedd unwaith wedi creu y ddaear a'i thrigolion, ond wedi hyny oedd wedi eu gadael bron yn ddiofal. Synient am dano yn fwy fel rhyw frenin daearol hollalluog, fel teyrn cyfnewidiol, yn llawn o nwydau dynol, nag fel Tad cariadus a graslawn. Nid oedd ond naturiol, ynte, fod eu natur ysbrydol yn dyheu am Dduw, â'r Hwn y gallai y galon ddynol ddyfod i gymundeb agos ac anwyl, yr Hwn allai gydymdeimlo â'u gofidiau, gwrando ar eu cri mewn caledi, a rhoi nerth iddynt yn amser galar a phrofedigaeth. A phwy allasai ymddangos iddynt i fod yn bobpeth allent ddymuno yn fwy na'r Iesu trugarog hwnw nad oedd wedi ymadael â'r byd er's hir amser, yr Hwn oedd mor dyner i'r gwan ac i blant bychain, a'r Hwn ddywedodd, "Deuwch ataf Fi bawb a'r sydd yn flinderog a llwythog, a Mi a esmwythâf arnoch." Ni theimlent yn unig tra y byddai Ef yn agos. Yr oedd y byd, o'r blaen megys heb haul a goleuni, wedi ei oleuo o'r newydd gan Ei gariad mawr Ef.

Nid oes yna, 'rwy'n meddwl, ryw serch angerddol at athrawiaeth y Drindod hyd yn nod yn mhlith Iawnffyddwyr; ond wedi gwneyd Duw o'r Iesu, yr oedd yn rhaid cwblhau y cylch a'i wneyd yn gyfanrwydd cyson trwy wneuthur Duw hefyd o'r Ysbryd Glan. Ni raid i ni archwilio llawer cyn cael allan beth sydd wedi rhoddi i'r athrawiaeth o iachawdwriaeth trwy ffydd yn ngwaed yr Oen ei gafael bresenol ar y byd. Beth allasai fod yn fwy dymunol a boddhaol i ddyn pan yn byw ac yn ymegnïo o dan lwyth pechod, pan yn teimlo fod Duw yn mhell oddiwrtho, ac yn credu fod Ei ddigofaint arno, na modd i ymwared oddiwrth y rhai hyn, ac i ryddhau ei hun oddiwrth gaethiwed pechod? Ac am anffaeledigrwydd yr Ysgrythyrau, yr oedd yn rhaid iddynt gael rhyw awdurdod anffaeledig i brofi eu hathrawiaethau, am na wnaent hyny ohonynt eu hunain; ac yn y Beibl credai duwinyddion eu bod wedi cael y fath awdurdod. Mae canlynwyr y Pab yn ceisio gwneyd eu sefyllfa yn fwy cadarn fyth trwy wneuthur yr Eglwys yn anffaeledig.

Ond pan ydym yn dal yr athrawiaeth o gariad Tadol Duw tuag at Ei blant, syrthia un ac oll o'r athrawiaethau yma i'r llawr. Nid oes eisieu yr un cyfryngwr rhwng Duw a dynion pan y mae Duw Ei Hun yn Dad tyner a thrugarog, yn gwrandaw ar weddiau y distadlaf o'i greaduriaid, ac yn eu hachub, fyth yn agos iawn tuag atynt, ac yn gofalu, nid yn unig am danynt hwy, ond hefyd am adar y nefoedd a llysiau y maes. Nid oes angen am ymwared oddiwrth lid a digofaint Duw, pan nad oes na digofaint na llid yn perthyn iddo. Ac ni raid

cael yr un gallu allanol i ategu y ffydd obeithiol yma pan y mae yn cymeradwyo ei hnn i galonau a chydwybodau pob un ohonom, ac yn apelio at ffeithiau dyfnaf y natur ddynol.

Gadewch i ni yn awr daflu cipolwg ar y casgliadau at ba rai ydym wedi cyrhaedd. Gwelwn fod y rhai hyny sydd yn myned "yn ol at Iesu" yn dyfod at grefydd mor syml fel nad yw yn rhoddi lle i unrhyw gredoau a seremoniau, ond sydd yn gynwysedig mewn adnabod Duw fel ein Tad; mewn byw bywyd o ddyledswydd ffyddlon, ac o gariad tuag at ein cyd-ddynion; ac mewn cydnabyddiaeth o'r ffaith mai dyma yw telerau derbyniad gan ein Tad a gwir iachawdwriaeth yr enaid. Hynyma oedd swm a sylwedd crefydd fel yr ymddangosai i'r Iesu; ac os ydym am Ei barchu a bod yn ffyddlon Iddo, rhaid i ni dderbyn yr athrawiaethau syml hyn fel swm a sylwedd ein crefydd ninau, a'u rhoi o flaen unrhyw ddamcaniaethau am Ei Berson. Gallwn garu yr Iesu gyda diolchgarwch arbenig, ond peidiwn gadael i'r cariad yma orchuddio a chymylu ein cariad tuag at ein Tad Nefol, neu ni fyddwn yn gwneuthur yr Iesu Ei Hunan heb fod o un pwys. Ac felly yr ydym yn gorphwys yn y Gristionogaeth sydd i barhau: yn y ffydd ein bod yn nwylaw Tad yr Hwn sydd yn berffaith ddoethineb, yn berffaith gariad, ac yn berffaith ddaioni. Nid yw rhagor o dduwinyddiaeth ond peth dibwys. I'n Duw a'n Tad, nid oes na bach na mawr. Mae dilladu y lili a chynal aderyn y tô yn gymaint Ei ofal ag ydyw dadblygu y cyfundrefnau heulog a llywodraethu y bydysawd. Gwnaeth ni yn blant Iddo, a galwodd ni i gymundeb âg Ef Ei Hun. Cydymdeimla â ni mewn dedwyddwch a thrallod, cynorthwya ni yn ein gwendid, a dyry Ei gymhorth i ni pan mewn profedigaeth. Dyma yw y grefydd ddysgwyd gan Iesu allan o ddyfnderoedd Ei brofiad a'i gyfarfwyddyd ysbrydol; a bendigedig fyddo Ei enw, y Mab rhyfeddol yma, yr Hwn a'i mynegodd gyntaf â'i wefusau, ac a'i hamlygodd yn Ei fywyd anghymharol.

R. A. J.

MYNYDD GELLIONEN.

LLE anwyl yw Gellionen,—lle iach
Rydd win lles mewn angen;
Lle eirian yw ger llaw'r nen,
A lle i'n gwneyd yn llawen.

Gwyn Gapel gàna'i gopa,—a didwyll
Undodiaid a'i llanwa;
Diwyd wŷr, dros eu Duw da,
O swydd emog sydd yma.

Clydach. PERLLANOG.

ADDYSG GREFYDDOL.

[NODIAD.—Y mae gwrtaith meddyliol y werin Gymreig wedi dyoddef yn enbyd oddiwrth y ffaith mai y pwlpud, a'r pwlpud yn unig, sydd wedi bod yn brif gyfrwng ei diwylliant. Y canlyniad naturiol ydyw, fod y genedl, fel pob cenedl sydd a dylanwad ei phwlpud wedi bod yn gryfach nag unrhyw ddylanwad arall—wedi etifeddu culni meddyliol sydd wedi ei chau allan oddiwrth ddylanwad y rhan yma o lenyddiaeth nad yw yn dwyn yr agraff uniongred; a chan fod y rhan yma yr eangaf a'r mwyaf ffrwythlawn o lenyddiaeth y byd, y mae y genedl felly yn tori ei hun ymaith oddiwrth wreiddyn pob cynydd. Hyn fydd yn rheswm dros gynyg y rhan fechan yma o ddysgeidiaeth y llenor a'r proffwyd byd-enwog, Count Leof Tolstoi, i ddarllenwyr yr YMOFYNYDD; a chyda llaw, y mae yn fwy na thebyg mai'r YMOFYNYDD ydyw'r unig gylchgrawn Cymreig sydd ddigon rhydd ei farn i gyhoeddi y traethawd. Y mae Leof Tolstoi, er wedi ei ddwyn i fyny yn y palas, wedi cymeryd arno agwedd gwas er cario allan ei argyhoeddiadau. Rhestrir ef fel llenor yn mhlith y blaenaf o lenorion y byd; ac fel proffwyd, ochr yn ochr â Buddha, Iesu o Nazareth, Paul, Francis o Assisi, a sefydlwyr mudiadau crefyddol mawrion ereill y byd. Ymddangosodd y traethawd gyntaf yn yr *Ethical World*.—J. WINTON EVANS.]

ODDIAR yr amser, rhyw ugain mlynedd yn ol, pan y gwelais gyntaf yn eglur pa mor hapus y dylai ac y gallai dynoliaeth fyw; ac mor ddisynwyr y poenant eu gilydd, ac yr anafant genedlaeth ar ol cenedlaeth; yr wyf wedi parhau i symud bellach, bellach yn ol achos gwreiddiol y ffolineb a'r dystryw yma.

Ar y cyntaf ymddangosai trefniadau cynilol gwallus fel yr achos, yna gorfodiaeth wladwriaethol sydd yn dal i fyny y trefniadau yma; ond yn awr, yr ydwyf wedi dyfod i'r argyhoeddiad mai achos banfodol hyn oll ydyw yr addysg grefyddol gyfeiliornus drosglwyddir drwy ddysgeidiaeth. Yr ydym wedi dyfod mor gynefin â'r celwydd crefyddol sydd yn ein hamgylchu, fel nad ydym yn sylwi ar yr erchylldra, y ffolineb, a'r creulondeb sydd wedi trwytho addysg yr eglwysi. Yr ydym *ni* yn ddisylw ohono, nid felly'r plant; ac y mae eu heneidiau yn cael eu hanafu yn anadgyweiriol gan y ddysgeidiaeth yma. Nid oes i ni ond deall yn eglur yr hyn ydym yn wneuthur, pan yn addysgu y plant yn yr hyn elwir yn grefydd, i deimlo arswyd am y trosedd ofnadwy gyflawnir felly. Plentyn pur a diniwed, ac sydd eto yn ddidwyll, ac heb ei dwyllo, a nesâ atoch, fel un sydd wedi cael profiad o fywyd, ac yn meddianu, neu a allai feddianu yr oll o'r wybodaeth sydd yn awr o fewn cyrhaedd dynoliaeth, ac a ymhola yn nghylch y gwirioneddau gwreiddiol ddylai arwain dyn drwy fywyd. A pha fodd yr ydym yn ei ateb? Yn aml, yn wir, nid ydym yn ei ateb, ond yn rhagflaenu ei ofynia-lau, fel ag y bydd wedi ei ddarparu âg ateb anogol erbyn yr amser pan gyfyd y gofyniad.

Atebwn ei ofyniadau gyda choeg-chwedl Iuddewig arw, anghyfluniaidd, ffol, a chreulawn; a adroddwn naillai yn ei ffurf wreiddiol, neu, waeth fyth, yn ein geiriau ein hunain.

Dywedwn wrtho—gan ei sicrhau mai hwn ydyw y gwirionedd cysegredig, yr hyn, fel y gwyddom yn dda, sydd anmhosibl, ac sydd i ni yn hollol ddiystyr—mai chwe' mil o flynyddoedd yn ol, rhyw Fôd dyeithr a alwn yn Dduw, a ymgynghorodd âg Ef Ei Hun yn nghylch creu byd, ac a'i creodd, ac hefyd ddyn; pechodd dyn, ac am hyn y Duw creulawn a'i cosbodd ef, a ni oll; ac yna a'n gwaredodd oddiwrtho Ei Hun drwy farwolaeth Ei Fab; ac mai ein prif bwrpas ydyw heddychu y Duw yma, a rhyddhau ein hunain o'r poenau i ba rai y mae wedi ein condemnio.

Yr ydym yn credu nad oes dim drwg yn hyn, hyd yn nod ei fod yn ddefnyddiol i'r plentyn; ac yr ydym yn gwrando arno gyda phleser yn adrodd yr arswydlawn bethau heb ganfod y gwyrdroad ofnadwy—anweladwy i ni, am ei fod yn ysbrydol—sydd yn cymeryd lle yn ei enaid. Credwn fod enaid y plentyn fel bwrdd glan, ar ba un y gallwn ysgrifenu yr hyn a fynom. Ond nid hyn mohono. Y mae gan y plentyn syniad diffurf o ffynonell yr oll—o achos ei fodolaeth, a'r gallu yna y teimla ei hun yn ei afael, a meddiana syniad *uchel* o'r ffynonell yma; anmhenodol ac anhraethol mewn geiriau; ond o ba un y mae ei holl fôd yn wybyddus—naturiol i bob dyn rhesymol. Yn ddirybudd, yn lle hyn, dywedir wrtho nad ydyw y ffynonell yma yn ddim amgen na rhyw fath o fôd drwg, personol, hunanfoddog, ac ofnadwy—y Duw Iuddewig.

Y mae gan y plentyn syniad hollol gywir o dueddnod bywyd, yr hyn wêl mewn dedwyddwch sydd i'w gyrhaeddyd drwy gymundeb cariadus yn mhlith dynion. Yn lle hyn dywedir wrtho mai tueddnod cyffredinol bywyd ydyw mympwy rhyw Dduw gwamal, ac mai nod personol pob un ydyw, rhyddhad ei hunan o gosbedigaeth dragywyddol, dyoddefiadau haeddwyd, efallai, gan rywun, pa rai osododd Duw ar bawb.

Y mae gan bob plentyn hefyd yr ymwybyddiaeth fod dyledswyddau dyn yn gymhleth iawn, ac yn gorwedd yn mro moesoldeb. Yn lle hyn, dywedir wrtho fod ei ddyledswyddau yn gorwedd yn benaf mewn gweithredu ffydd ddall mewn gweddiau; adroddiad o eiriau penodol ar oriau penodol; ac mewn llyncu cymysgaeth o fara a gwin, olygir i gynrychioli corff a gwaed Duw; heb son am groesau, gwyrthiau, ac hanesion Beiblaidd anfoesol roddir fel esiamplau o ymddygiad, a'r gwyrthiau Efengylaidd, yn nghyda'r holl ystyr anfoesol roddir i'r adroddiad Efengylaidd. Y mae yr un fath a phe bai rhywun yn cyfansoddi athrawiaeth gyflawn allan o chwedleuaeth gwlad, a'i harwyr dychymygol, ac yn ei chyflwyno i blant fel hanes rhesymol.

Ymddengys yn ddibwys i ni, ond y mae y ddysgeidiaeth roddir i blant yn ein plith ni o'r hyn elwir yn grefydd y trosedd mwyaf ofnadwy ellir ddychymygu. Artaith, lladdiad, neu halogiad plant, nid ydynt ddim i'w cymharu â'r trosedd yma. Y mae'n rhaid i'r llywodraeth a'r dosbarthiadau uchaf wrth yr hoced yma. Y mae eu gallu yn anwahan-

edig âg ef, felly gwelir y dosbarth llywodraethol yn wastad yn peri i'r twyll gael ei drawsddodi ar blant, ac yn ei gynal â'u holl egni yn mhlith pobl mewn oed. Tra y dylai y rhai ddymuna ddiwygio, yn hytrach nag amddiffyn y trefniadau cymdeithasol twyllodrus presenol, ac uwchlaw'r oll, y rhai ddymuna les y plant, ymdrechu â'u holl nerth i'w gwaredu oddiwrth yr hoced anfad hyn. Felly, y mae oerfelgarwch hollol yr ieuenctyd, a'u gwadiad o bob math o ffurfiau crefyddol, hyd yn nod pan nas rhoddir unrhyw addysg grefyddol sicr yn eu lle, yn anghymharol well na'r addysg Iuddewig-Eglwysaidd oreu yn ei ffurf.

Ymddengys i mi na ddylai unrhyw un sydd wedi deall pwysigrwydd cyflwyno addysg dwyllodrus fel gwirionedd cysegredig betruso yn nghylch yr hyn ddylai wneyd, hyd yn nod pe heb feddianu argyhoeddiadau crefyddol pendant i'w cyflwyno i'r plentyn yn eu lle. Os deallaf fod twyll yn dwyll, yna nis gallaf, o dan unrhyw amgylchiad, ddyweyd wrth blentyn sydd yn fy holi yn ddiddichell ac ymddiriedlawn, fod yr hyn sydd yn amlwg i mi yn dwyll yn wirionedd pur.

Gwell fuasai pe gallwn ateb yn wirioneddol yr holl ofyniadau ag y mae'r eglwys (eglwysi) yn ateb yn anwireddus; ond os na allaf wneuthur hyn, eto y mae yn rhaid im' ochelyd rhag cyfleu fel gwir gelwydd amlwg; yn gwybod yn ddiamheuol mai da yn unig all ddeilliaw drwy ymlynu wrth y gwir.

Heblaw, nid ydyw wir nad oes gan ddyn ddim i'w ddyweyd wrth blentyn mewn ffurf crefydd sicr. Gwybydd pob dyn unplyg yr egwyddor dda er mwyn pa un y mae efe yn byw. Bydded iddo gyflwyno ac egluro *hono* i'r plentyn; ac yn sicr, gwna les iddo, ac nid drwg.

Ysgrifenais lyfr elwir *Yr Addysg Gristionogol*, yn mha un y ceisiais fynegi mor syml ac eglur ag oedd bosibl yr hyn oeddwn yn gredu. Trödd y llyfr allan yn anghymhwys i blant, er mai plant yn neillduol oedd genyf mewn golwg pan yn ei ysgrifenu. Pe byddai raid i mi yn awr drosglwyddo i blentyn sylwedd yr addysg grefyddol ystyriaf yn wir, dywedwn wrtho ein bod wedi dyfod i'r byd yma, ac yn byw ynddo, nid drwy ewyllys ein hunain, ond drwy ewyllys yr hyn elwir genym yn Dduw, ac y bydd gan hyny yn dda arnom yn unig pan yn cyflawni yr Ewyllys yma. Yr Ewyllys hon ydyw, y dylem oll fod yn ddedwydd; ac i'r oll fod yn ddedwydd, nid oes ond un ffordd—rhaid i bob un ymddwyn tuag at ereill fel y dymunai i ereill ymddwyn tuag ato ef.

Am y gofyniadau, Pa fodd y daeth y bydysawd i fodolaeth? a beth sydd yn ein haros ar ol marw? Mi atebwn y cyntaf drwy gydnadod fy anwybodaeth, ac afreoleidd-dra y fath gwestiwn (yn mhlith canlynwyr Buddha, nid oes y fath ofyniad); ac i'r ail, cynygiwn y dybiaeth y bydd i Ewyllys yr Hwn a'n dygodd er ein lles i'r bywyd yma ein harwain drwy angeu i rywle—efallai i'r un pwrpas.

"HWYAF ei dafod, lleiaf ei wybod."

"Y CYSGOD A'R SYLWEDD."

MR. GOL.,—Yn eich rhifyn diweddaf mae un o'ch gohebwyr, a lawnoda ei hun "Un o blant yr Ysgol Sul," yn gosod allan ei fod mewn penbleth yn nghylch ystyr un frawddeg yn yr Anerchiad, "Y Cysgod a'r Sylwedd." Mae yr ymadrodd y cyfeiria ato i'w weled ar tudalen 7, ac yn darllen fel y canlyn:—"Mae yr Ysbryd Tragywyddol wedi gosod rhan ohono Ei Hun o fewn terfynau, er mwyn rhoddi i'w blant gyrff anianol—tabernaclau gwych i fyw ynddynt." *I fyw ynddynt*, ac nid *i fywyd ynddynt*, fel yr ymddangosa yn yr YMOFYNYDD. Mae eich gohebydd wedi methu cael gafael yn "nghnewullyn" yr ymadrodd. Nis gwn yn iawn ai cyfaddefiad diymhongar yw hyn o'i anallu i afaelu yn y meddylddrych gynwysir yn y frawddeg ai peidio; ond gyrir fi i dybio weithiau fod eich gohebydd yn ymhyfrydu yn llechwraidd yn y syniad ei fod wedi tori y "gneuen," a'i chael yn wâg. Gwn hyn, na fuasai fawr o ddychymyg genyf, pan oeddwn yn blentyn yn yr Ysgol Sul, beth oedd ystyr fewnol y gosodiad, a byddai raid i mi gymeryd y frawddeg fel ffaith i'w chredu neu ei gwrthod, heb allu rhoddi fawr o reswm am y dewisiad. A chyn y gall neb allu tynu yr holl drwyth allan o'r dyfyniad, rhaid iddo fod i ryw fesur yn gynefin â syniadau a drychfeddyliau athronyddol sydd yn gwibio yn awyrgylch feddyliol y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Wele ymdrech i egluro, a deongli. Credwn fod ein cyrff wedi eu hadeiladu o'r hyn a alwn yn "*fater*." Dysg athroniaeth ddiweddar ni i gredu mai *ysbryd* yw *mater*—ysbryd yn ei amlygiad iselaf o'i hun, neu ysbryd wedi ei dynghedu a'i gyfyngu i weithredu o fewn terfynau neillduol. Felly, "mae yr Ysbryd Tragywyddol wedi gosod rhan ohono Ei Hun o fewn terfynau er mwyn rhoddi i'w blant gyrff anianol—tabernaclau gwych i fyw ynddynt." Gallwn ddeall mai nid ffordd naturiol y Bôd sydd yn Ysbryd byw, yn feddwl didor a pharhaus, yw datguddio Ei Hun fel mater, fel amlygiadau materol; ond sylweddolwn yn hytrach fod yn rhaid i ysbryd ddatguddio ei hun i ysbryd ar hyd y llinellau ysbrydol. Ond, mor bell ag y gwyddom, nid oedd ysbryd annibynol yn preswylio yn unlle nes i ddyn ymddangos; felly, gosododd Duw ran ohono Ei Hun o fewn terfynau, a chreodd y byd materol, a gwnaeth yr amgylchiadau yn ffafriol i ysbryd breswylio yn y corff dynol. A phan ddarfu i Dduw osod ysbryd ymwybodol ac annibynol i breswylio yn y corff dynol, yna torwyd ar y dystawrwydd, a gwnaeth yr Ysbryd siarad â'r ysbryd, a datguddiodd Duw Ei Hun fel meddwl, fel cariad, fel prydferthwch sancteiddrwydd, fel Tad Nefol.

Yn y paragraff, o'r hwn y dyfyna eich gohebydd y frawddeg dan sylw, mae y geiriau hyn i'w gweled: "Dywed Dr Martineau fod Duw yn y bydysawd yn gosod rhan ohono Ei Hun o fewn terfynau, ac wedi tynghedu Ei Hun i ddystawrwydd parhaus, er gwneuthur y byd anianol yn bosibl." Ac nid yw y frawddeg sydd wedi achosi i "Un o blant yr Ysgol Sul" bendrymu uwch ei phen ond dadblygiad hollol gyfreithlon,

dybiaf, o syniadau yr enwog Ddr. Martineau. Nid wyf wedi ceisio Cymreigeiddio iaith fawreddog Dr. Martineau. ond 'rwyf yn credu fy mod wedi rhoddi ei syniadau yn weddol gywir yn fy iaith fy hun. Os yw eich gohebydd am wybod a wyf wedi llwyddo yn hyn, darllened *Seat of Authority in Religion*, tudal. 29-36 ; *A Study of Religion*, Cyf. I., tudal. 398-417. Dymunaf hefyd alw sylw "Un o blant yr Ysgol Sul" at y ffaith nad yw y syniadau a nodwyd yn wreiddiol i Dr. Martineau.

Mae yr hyn a adnabyddir heddyw fel delfrydiaeth (*idealism*) wedi cychwyn gyda Kant, a darfu i Fichte a Schelling ychwanegu eu cyfran, a chyrhaeddwyd y llanw yn ngweithiau Hegel ; ac adnabyddir y syniadau heddyw fel Hegeliaeth, neu ddelfrydiaeth diamodol (*absolute idealism*). Os hoffa eich gohebydd gydnabyddu â'r syniadau hyn, darllened weithiau y brodyr Caird, *Evolution of Religion*, ac *Introduction to the Philosophy of Religion*, a llyfr Mr F. H. Bradley, *Appearance and Reality* — llyfr a welais am y tro cyntaf yn Abertawe, pan ar fy ngwyliau eleni. Dymunaf dynu sylw eich gohebydd hefyd at y ffaith fod syniadau y delfrydydd diamodol wedi colli tir yn ngwlad eu genedigaeth : ac nad ydynt yn cael eu derbyn ond yn rhanol gan feddylwyr mwyaf coethedig ein henwad. Os hoffa "Un o blant yr Ysgol Sul" wybod lle mae y gwahaniaeth yn gorwedd darllened *A Study of Religion*, Cyf I a II, gan Martineau ; *Philosophy of Religion*, gan Hermann Lotze ; a *Bases of Religious Belief* (Hibbert Lectures, 1893), gan y Parch Charles B. Upton, B.A., B.Sc. Gellir cael y ddau olaf am bris rhesymol.

Pendleton, Awst 15fed, 1900. JENKYN THOMAS.

HAWLIAU NEU FREINIAU DYN.

I. NAD oes gan lywodraeth, fel y cyfryw, hawl yn y byd. Yr awdurdod sydd ganddi, y mae wedi ei throsglwyddo iddi gan bersonau unigol, er mwyn dyogelu yr eiddynt eu hunain. Y mae yn gyfiawn, gan hyny, mor bell yn unig ag y mae yn bodoli gyda'u cydsyniad hwy ; ac yn ddefnyddiol mor bell yn unig ag y mae'n gweithredu er lles iddynt.

2. Os dygwydd i'r unigolion hyn feddwl fod ffurf y llywodraeth fel y maent hwy neu eu cyndeidiau wedi ei gyfansoddi yn anaddas i ddwyn o amgylch eu dedwyddwch, y mae ganddynt hawl i'w newid.

3. Dyfeisir llywodraeth er mwyn dyogelu iawnderau. Y mae gan ddyn hawl i ryddid, ac i gyfranogiad o gyffredin bethau natur.

4. Lles y rhai a lywodraethir yw, neu ddylai fod, amcan pob llywodraeth Nid oes gan neb dynion un awdurdod oni fydd yn deilliaw'n benodol oddiwrth eu hewyllys hwy.

5. Er nad yw pob llywodraeth cynddrwg ag yw Twrci, eto nid oes nn llywodraeth cystal ag y dichon iddi fod. Y mae gan uchafrif pob gwlad hawl i berffeithio eu llywodraeth. Ni ddylai y lleiafrif eu haflonyddu; dylent ymneillduo a ffurfio eu cynllun eu hunain yn eu ffordd eu hunain.

6. Y mae gan bob un hawl gyffelyb i fuddianau a beichiau llywodraeth. Y mae unrhyw anghymhwysderau (*disabilities*) fo'n tarddu oddiar opiniwn, yn awgrymu, trwy eu bodolaeth, ormes digywilydd ar ran y llywodraeth, a slafeidd-dra anwybodus ar ran y rhai a lywodraethir.

7. Yn nghyflwr presenol cymdeithas, nid yw iawnderau dyn i'w sicrhau ond yn unig trwy radd o ormes ar ran y llywodraethwr; ond y mae gan y dyoddefydd hawl i ofyn fod y cyfryw ormes mor ysgafn a fo posibl.

8. Gellir ei ystyried yn brawf amlwg mor ffugiol yw unrhyw gynygiad pan geisir derbyniad ohono trwy orfodaeth yn lle trwy ymresymiad. Ni ategir llywodraeth byth trwy dwyll hyd nes y methir ei hategu trwy reswm.

9. Nid oes gan neb hawl i aflonyddu heddwch ardal trwy wrthwynebiad personol i gyflawniad cyfraith nad pa mor ddrwg. Dylai ymostwng, ac ar yr un pryd ddefnyddio pob gallu rhesymol i'w dileu.

10. Rhaid fod gan ddyn hawl i weithredu mewn ffordd neillduol cyn y gall fod yn ddyledswydd arno. Efe a ddichon, o flaen efe a ddylai.

11. Y mae gan ddyn hawl i feddwl yn ol fel byddo ei reswm yn cyfarwydd›; y mae yn ddyledswydd sydd yn gorphwys arno i feddwl yn rhydd, fel y gallo weithredu oddiar argyhoeddiad.

12. Y mae gan ddyn hawl i ryddid diatal i ddadleu pwnc. Ysgorpion yw anwiredd a wnaiff golynu ei hun i farwolaeth.

13. Nid yn unig y mae gan ddyn hawl i ddatgan ei feddyliau, ond y mae yn ddyledswydd arno wneuthur hyny.

14. Nid oes gan un ddeddf hawl i anghefnogi'r ymarferiad o'r gwirionedd Dylai dyn ddywedyd y gwir bob amser. Nis gall dyledswydd fod yn drosedd (*criminal*), a'r hyn nid yw drosedd, nis gall fod yn niweidiol.

15. Nis dichon deddf wneuthur yn drosedd yr hyn sydd ynddo ei hun yn rhinweddol neu yn ddiniwed, yn fwy nag y gall wneuthur yr hyn sydd yn drosedd yn ddiniwed. Nis gall llywodraeth wneuthur deddf, nis gall ond cyhoeddi yr hyn oedd yn ddeddf cyn iddi hi gael bodolaeth; hyny yw, canlyniad moesol perthynasau diddarfod pethau.

16. Nis gall y genedlaeth bresenol rwymo yr un sydd i ddyfod; ac nis gall yr ychydig addaw dros y lluaws.

17. Nid oes gan neb hawl i wneuthur drwg fel y del daioni.

18. Nid yw ymgyfaddasiad (*expediency*) yn oddefol mewn moesau. Nid yw gwleidiadaeth y peth y dylai fod, oddieithr ar egwyddorion moesoldeb. Gwleidiadaeth, mewn gair, yw moesoldeb cenedloedd.

19. Nid oes gan ddyn hawl i ladd ei frawd. Nid yw yn un esgus ei fod yn gwneuthur hyny mewn côt goch; nid yw ond yn unig yn ychwanegu gwaradwydd caethwasiaeth at drosedd llofruddiaeth.

20. Y mae gan ddyn, nad beth fo ei wlad, yr un hawliau yn y naill fel y llall—hawliau dinasyddiaeth gyffredinol.

21. Dylai llywodraeth gwlad fod yn berffaith ddiduedd gyda golwg ar bob mater o opiniwn. Y mae gwahaniaethau crefyddol y mwyaf gwaedlyd a'r mwyaf maleisus o bob rhai, yn tarddu oddiar bleidgarwch.

22. Nis dichon unrhyw gynrychiolaeth o unigolion, er mwyn sicrhau eu hiawnderau, feddu y gallu anghynrychiol i rwystro datganiad eu hopiniwn.

23. Peth anwirfoddol yw cred; nid oes dim i'w feio na'i ganmol mewn peth anwirfoddol. Ni ddylid ystyried dyn yn well nac yn waeth oblegid ei gred.

24. Y mae i'r Cristion a'r Deist, y Twrc a'r Iuddew, hawliau cyfartal; dynion a brodyr ydynt.

25. Os na fydd cred dyn yn cyfateb i'r eiddoch chwi, cerwch ef er hyny. Mor wahanol y gallasai yr eiddoch chwi fod, pe ganesid chwi yn Tartaria neu yr India!

26. Byddai yn dda i'r cyfryw hyny a gredant fod y nefoedd y peth y mae'r ddaear wedi bod, yn feddiant yr ychydig, ped ail-ystyrient eu hopiniwn; ac os cânt iddo ddyfod oddiwrth yr offeiriad, neu oddiwrth eu mamgu, nis gallant wneuthur yn well na'i droi o'r neilldu.

27. Nid oes gan un dyn hawl i ddysgwyl cael ei barchu oherwydd unrhyw feddiant, oddieithr y meddiant o rinwedd neu dalent. Nid yw teitlau ond rhith cysgodol, na gallu ond halogydd, na gogoniant ond bwrlwm, na chyfoeth mwy na mwy ond cabldraeth ar ei feddianydd.

28. Nid oes gan neb hawl i orfaelu mwy nag y gall fwynhau; yr hyn a rydd y cyfoethog i'r tlawd, pan y mae miliynau yn newynu, nid yw yn ffafr berffaith, ond hawl anmherffaith.

29. Y mae gan bob dyn hawl i ryw radd o seibiant a rhyddid, gan ei bod yn ddyledswydd arno i gyrhaedd rhyw radd o wybodaeth. Efe a ddichon, o flaen efe a ddylai.

30. Y mae sobrwydd corff a meddwl yn angenrheidiol i'r cyfryw hyny a fynant fod yn rhydd; oblegid heb sobrwydd, ni ddichon teimlad dwfn o ddyngarwch gyffroi'r galon, na gwroldeb tawel a phenderfynol gyflawni ei heirchion.

31. Unig ddefnydd llywodraeth yw cadw drygau dyn i lawr. Pe byddai dyn heddyw yn ddibechod, byddai hawl ganddo yfory i ofyn am derfyniad llywodraeth gyda'i holl ddrygau.

Tydi ddyn! yr hwn y mae dy iawnderau yma wedi eu gosod allan, paid bellach bod yn anghofus o fawredd dy dynged. Meddwl am dy hawliau, am y meddianau hyny a roddant i ti rinwedd a doethineb, trwy y rhai y dichon i ti gyrhaedd dedwyddwch a rhyddid. Y maent wedi eu gosod ger dy fron gan Un a ŵyr dy urddas; bob awr y mae ei galon yn chwyddo gan falchder anrhydeddus yn yr ystyriaeth o'r hyn sydd yn bosibl i ti—gan Un nad yw yn anghofus o'th ddirywiad, gan fod pob moment yn dwyn adref iddo yr argyhoeddiad chwerw o'r hyn wyt! *Deffro! cyfod! neu bydd byth ar lawr!* P. B. S.

LLITH J. J. T.

MR. GOL.,—Mae llawer o amser bellach oddiar pan yr ydwyf wedi ysgrifenu i'r YMOFYNYDD. Yn awr yr wyf yn Aberaeron. Y mae yma luaws o bobl, hen ac ieuainc; ac y mae bywyd i'w weled yn hyfrydwch—mae pob un yn mwynhau ei fywyd yn y modd mwyaf dedwydd.

Mae llawer iawn o anfon cenadon i wledydd pell, i India a China. Maent yn anfon yr Efengyl yno, meddent hwy. Yr ydym ni, yr Undodiaid, yn credu mai crefydd y dyfodol yw Undodiaeth. Yr wyf fi yn credu na welais erioed fwy o eisieu cenadon nag sydd ar lân y môr: y canoedd sydd yn dyfod yn nghyd, a'r rhai hyny mor anwybodus am dduwinyddiaeth a phobl India a China. Y maent yn credu yr hen athrawiaeth yn yr hon y maent wedi cael eu dwyn i fyny ynddi, fel y mae wedi dyfod yn ail natur iddynt—nid ydynt yn gwybod dim tu allan iddi. Felly mae y Brahminiaid yn credu yn Brahma, a'r Bwdystiaid yn Bwda, a'r Trindodiaid yn Nuw'r Drindod; nid wyf yn gweled fawr gwahaniaeth rhyngddynt. Mae yn ymddangos i mi fod yma le i Undodiaid i anfon cenadon yn nhymhor haf, oblegid fod yma gymaint o bobl yn anwybodus o'r grefydd yr hon yr ydym ni yn gredu sydd yn iawn. Pe buasai llenyddiaeth Undodaidd yn cael ei dosbarthu yma, yr wyf yn sicr y buasai rhyw gymaint o'r hadau yn cael tir da, ac yn dwyn ffrwyth.

J. J. T

MANION AC HANESION.

PERSONOL.—Oherwydd amgylchiadau anorfod, bwriadaf ddwyn fy ngwaith fel Golygydd yr YMOFYNYDD i derfyniad ar ddiwedd y flwyddyn. Nid oes angen manylu, ond diolchaf yn wresog am bob help a gefais gan gyfeillion hoff yn ystod y 13 mlynedd.—*J. Hathren Davies.*

COLEG CAERFYRDDIN.—Yn herwydd absenoldeb y Prifathraw o dref, mae y gyfres erthyglau ar y Coleg wedi aros am dymhor. Hyderwn, er hyny, y ca yr hyn a fwriada Mr. Evans ysgrifenu ymddangos cyn diwedd y flwyddyn.

PREGETH Y PARCH. TUDOR JONES.—Ca y bregeth hon, a draddodwyd yn nghyfarfodydd blynyddol yr enwad yn Aberdar, ymddangos yn y rhifyn nesaf.

LLWYDDIANT.—Da genym weled enw Miss M. G. Jones, Gelliaur, Llandysul, yn mhlith y rhai a lwyddasant i basio mewn pedair cangen o'r *Matriculation* yn Mhrifysgol Cymru. Llongyfarchwn hi ar ei llwyddiant, a dymunwn iddi lawer eto yn y dyfodol.

ABERDAR.—Cynaliwyd gwyl dê flynyddol yr Hen-Dŷ-Cwrdd. Gorphenhaf 30ain. Cafwyd cyngerdd yn yr hwyr, Mr. Rees Llewelyn, Bwllfa, yn cadeirio. Drachefn Awst 6ed, rhoddwyd i blant yr Ysgol Sul eu digon o dê a bara brith, ac yn yr hwyr cynaliwyd cyfarfod cystadleuol.—Traddododd y Parch. E. Robinson Hughes, Highland Place, ei bregeth ffarwel nos Sul, Gorphenhaf 29ain. Nos Iau ar ol hyny, buwyd yn yfed tê ac yn traddodi areithiau ffarwel.

BAZAAR LLUNDAIN.—Enwau priodol y buddugwyr o dan y ffugenwau ac yn y dosbarthiadau canlynol ydynt:—Dosbarth I: "Mîn-y-don" a "Cymru Fydd" yw Mr. Arthur Price, Bridge Street, Lampeter. Dosbarth IV: "Cymro" yw Mr. John Thomas, Greengrove, Talgareg. "A. E. S." yw Mr. Albert Edgar Smith, County School, Brecon. Y mae Mr. Price a Mr. Thomas wedi dychwelyd y gwobrau enillasant i drysorfa'r *Bazaar*.

PRIODASAU.

AWST 1af, yn Nghapel y Bedyddwyr yn Abernant, Mr. Thomas Davies, Organydd Capel Calfaria, â Miss Elizabeth Hopkins, y ddau o Aberdar. Y Parch. R. J. Jones yn gwasanaethu.

'Boed cysur, llwyddiant, a thangnefedd,
Yn rhan i'r ddeuddyn hyd y diwedd."

AWST 11eg, yn Nghapel Twynyrodyn, Merthyr, gan y Parch. Hathren Davies, Mr. David Thomas Davies â Miss Gwen Jones, y ddau o Gefncoed, a'r briodasferch yn aelod ffyddlon yn yr Hen-Dy-Cwrdd.

"Byw yn dda, byw yn dduwiol,—y byddoch
Hyd y bedd, byw'n fuddiol,
A chyd-fyw, a byw heb ôl,
Du fwriad edifeiriol."

AWST 15fed yn yr un lle, a chan yr un gweinidog, Mr. W. O. Evans, Pentyrch, â Miss Lizzie Evans, merch y diweddar James Evans, 10, Overton Street, Dowlais, ac aelod blaenllaw o'r Eglwys Undodaidd yn Nowlais. Ar yr un dydd, yn yr un lle, a chan yr un gweinidog, Mr. Walter Evans, mab y diweddar James Evans, 10, Overton Street, Dowlais—a thrysorydd yr Eglwys Undodaidd yn y lle—â Miss Brown, Bruce Hotel, Dowlais.

"Yr anwyl aur-awenau—i'w mwyniant
Ddyhidlant hedd-odlau;
Llu y nef fo'n eu llonhau
Ar dyner, dyner dànau.
Gyrfa deg: ar haf eu dydd—na ddoed pla,
Neu wywder gaua' yn dragywydd."

MARWGOFION.

MEHEFIN 1af, yn 50 oed, Mary Evans, Pantycelyn, Llanwenog, ar ol cystudd maith. Benyw dawel, ddiniwed, a gweithgar. Gadawodd ddwy chwaer i alaru ar ei hol, un o ba rai oedd yn cydfyw â hi yn y lle uchod. Na fydded iddynt i alaru yn ormodol. Claddwyd ei gweddillion y Llun canlynol yn Mynwent Capelygroes. yn medd ei thadcu, yr hwn oedd y cyntaf a gladdwyd yn y fynwent; yr oedd hi y 560 er y dechreu. Pregethwyd yn y tŷ cyn cychwyn gan y gweinidog, a chymerwyd gwahanol ranau ereill o'r gwasanaeth gan y Parchn. T. A. Thomas, J. Davies, a Thomas Thomas, Y. H.

MEHEFIN 14eg, Mrs. Sarah Jones, Castell-Elwyn, Pencareg, yn 88 oed. Yr oedd yr hen chwaer ymadawedig wedi cael bywyd hir, ac wedi mwynhau iechyd cymharol dda trwy ei hoes, hyd nes y daeth henaint gydai'i gwmpein i'w chaethiwo i'w thŷ, ac yn y diwedd i'w thori i lawr. Yr oedd yn un o'r cwmpeini, lluosog unwaith, fu am flynyddau yn cyrchu yn rheolaidd bob pythefnos i Capelygroes o fynydd Pencareg. Y mae'r cwmpeini hwn bellach wedi ei wasgar. llawer wedi eu cludo i fynwent Capelygroes, ereill wedi ymsefydlu mewn lleoedd ereill mwy cyfleus, tra mae ereill drachefn wedi symud i leoedd rhy anghysbell i fynychu un addoliad Undodaidd, er fod y rhan fwyaf ohonynt o hyd yn parhau yn ffyddlon i grefydd eu tadau; ac erbyn hyn nid oes yn parhau yn ffyddlon i'r achos yn Capelygroes ond teulu'r Castell, a dwy o deulu Frowen. Hir y parhäont felly. Yr oedd yr ymadawedig yn un o'r aelodau yn Capelygroes pan ddaeth y Parch. Thomas Thomas yn weinidog i'r gynulleidfa; ac o'r rhai fu'n

ei groesawu ar y cyntaf, nid oes ond ydydig iawn yn aros ar dir y byw erbyn hyn. Gadawodd ar ei hol un ferch a dau fab, un o ba rai sydd wedi ei oddiweddyd gan afiechyd blin; eiddunwn iddo ddferiad buan. Cymerodd y gladdedigaeth le dydd Llun canlynol yn Capelygroes, pryd y daeth tyrfa anarferol luosog yn nghyd i dalu iddi y gymwynas olaf. Pregethwyd yn y Castell gan weinidog Capelygroes, a chymerwyd rhan yn ngweddill y gwasanaeth gan y Parchn. R. C. Jones, a Thomas Thomas; gan Mr Thomas cafwyd ychydig sylwadau teimladwy yn y capel. Nid yw ond wedi blaenu; awn ninau yn fuan ar ei hol. [Dylasai y ddau uchod fod wedi ymddangos yn gynt.]

GORPHENHAF 5ed, Evan Davies, Red Lion Inn, Llanbedr, yn 53 mlwydd oed. Cafodd ei symud yn dra annysgwyliadwy i'w gyfeillion agosaf. Gadawodd i alaru ar ei ol weddw ac un plentyn, heblaw perthynasau ereill a chyfeillion. Claddwyd yn Mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. Evan Evans, Soar (A.), ac yn y gladdfa gan weinidog Brondeifi.

GORPHENHAF 20fed, yn dra sydyn, o ddolur y galon, Esther, priod William Thomas, Brynmaen (gynt o Cefn Hendre), ger Salem, Llandeilo Fawr. Ganwyd hi ar y 15fed o Hydref, 1820, felly yr oedd yn 80 mlwydd oed ond rhyw dri mis. Ail ferch ydoedd i Daniel Evans, Tir-Ifan-ddu, Llanfynydd—un o frodyr ieuengaf y Parch. Thomas Evans (Tomos Glyn Cothi); a'i chwaer henaf hi ydyw Mrs. Anne G. Jenkins, gynt o Aberdar, ond yn awr o Morris Run, Pennsylvania. Fel amryw ereill o'r un teulu, nodweddid Mrs. Thomas gan ei gallu meddyliol cryf, ei thuedd ddarllengar, a'i chof helaeth, gyda pha rai y cyfunid hefyd gymeriad didwyll a rhodiad diymhongar. Perthynai i'r Enwad Annibynol, yn gyntaf yn Capel Isaac (lle yr oedd ei thad yn ddiacon), ac wedi hyny yn Salem. Claddwyd hi yn Mynwent eglwys Salem, ar y 24ain o Orphenhaf. Goroesir hi gan ei brawd a'i chwaer ieuengaf—Daniel Evans, Garegfechan, a Mrs. Mary Davies (gweddw y nodedig Dafydd Dafis, Rhydcymerau). Gedy hefyd ar ei hol ei phriod a thri o blant, yr ieuengaf ohonynt yw Mr. Lleufer Thomas, bargyfreithiwr, Abertawe.

GORPHENHAF 23ain, yn nhŷ ei fab, Mr. M. R. David, y Grange, Aberdar, Mr. Richard David, diweddar o Abergwawr, yn 82 mlwydd oed. Yr oedd Mr. David wedi cael iechyd da drwy ei oes, a thorwyd ef i lawr yn y diwedd yn dra disymwth. Perthynai i un o hen deuluoedd y plwyf, a daearwyd ei weddillion yn Mynwent yr Hen Eglwys. Gwasanaethwyd gan y Parch. J. Joseph George, yn y Grange, gan y Parch. W. Powell yn yr eglwys, a'r Parch. R J. Jones, M.A., ar lan y bedd. Y mae ei unig ferch yn wraig Mr. Lewis Noah Williams, Cambrian Lamp Works. Dymunwn iddi hi a'i brawd, a'u cysylltiadau oll, nawdd Duw a'i dangnef.

GORPHENHAF 28ain, Mr. Thomas Griffiths, Nottais, yn 52 oed; un o brif golofnau yr achos bychan yno ysgrifenydd yr eglwys, ac arolygydd yr Ysgol Sul. Un o ragorolion y ddaear oedd—tawel, gonest, ffyddlon yn ei holl gysylltiadau. Daearwyd yn Mynwent Eglwys y Plwyf. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. David Evans y Wig; ac ar lan y bedd gan y Parchn. W. J. Phillips ac R. J. Jones, M.A.

AWST 12fed, Mrs. Jemimah O'Connell, Tyrheol, Ram, ger Llanbedr, yn 68 mlwydd oed. Nid oedd iechyd yr ymadawedig wedi bod yn dda yn ddiweddar, ond ni bu ei chystudd olaf ond cymharol fyr Yr oedd wedi bod yn hen aelod o eglwys Caeronen, ac ar ol hyny, o eglwys Brondeifi. Gadawodd mewn galar ar ei hol briod oedranus a methedig, a phlant, a pherthynasau ereill. Ar ddydd ei hangladd daeth nifer luosog yn nghyd i hebrwng ei gweddillion i fedd yn Mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

AWST 13eg, yn 40, Mount Pleasant, Trecynon, Aberdar, Margaret Phillips, yn 56 oed. Menyw dawel, ddidwrw, parchus gan bawb a'i hadwaenai, oedd Miss Phillips. Gweithiodd yn galed drwy ei hoes, gan feddwl mwy am gysur ereill na'i chysur ei hunan. Claddwyd hi yn Mynwent Eglwys St. Ffagan, y Parch. R. J. Jones, M.A., yn gwasanaethu.

Joseph Williams, Argraffydd, Swyddfa'r "Tyst," Merthyr Tydfil.